HAF 2021

GWYBODAETH I DDYSGWYR

Llythyr at ddysgwyr ynglŷn ag apelio, llinell amser a chydraddoldeb

4 Mawrth 2021

Annwyl Ddysgwr

Asesiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021 - Llinell amser dyddiadau allweddol, y broses apelio ac ystyriaethau cydraddoldeb

Fe wnaethom ysgrifennu atoch ar 25 Chwefror ynghylch trefniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol eleni. Heddiw, rydym yn anfon fersiwn wedi'i diweddaru o'n canllawiau ar drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch ar gyfer ysgolion a cholegau.

Yn y diweddariad hwn, mae gan eich ysgol neu goleg fwy o wybodaeth am:

- Sut i wneud yn siŵr bod graddau'n deg ar draws yr ysgol neu'r coleg
- Sut y dylai ysgolion a cholegau gofnodi eu penderfyniadau ar ba radd i ddyfarnu dysgwyr ym mhob pwnc yn haf 2021
- Sut y bydd apeliadau'n gweithio
- Dyddiadau allweddol pan fydd angen i bopeth ddigwydd

Disgwyliwn gyhoeddi fersiwn derfynol o'r canllawiau hyn gyda diweddariadau pellach ar ddiwedd tymor y Gwanwyn. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cael eu hategu gan ganllawiau manylach ar gyfer ysgolion a cholegau sy'n cael eu darparu gan CBAC.

Llinell amser (ffeithlun)

Mae'r llinell amser ar gyfer dysgwyr yn dangos y bydd eich ysgol neu goleg yn trafod y Graddau **dros dro** a Bennir gan y Ganolfan sydd wedi'u penderfynu ar eich rhan ym mhob un o'ch pynciau ym mis Mehefin. Mae angen i'ch ysgol neu goleg anfon y graddau hyn at CBAC erbyn 2 Gorffennaf. Yn ystod y cam hwn, nid yw eich graddau wedi eu cadarnhau gan y bydd angen i CBAC wneud gwiriadau terfynol ar gyfer pob ysgol a choleg, er mwyn sicrhau bod prosesau clir wedi'u dilyn. Bydd eich graddau'n derfynol pan fyddwch yn eu derbyn ar ddiwrnodau'r canlyniadau. Mae diwrnod canlyniadau dysgwyr UG a Safon Uwch ar 10 Awst ac ar gyfer dysgwyr TGAU, mae diwrnod y canlyniadau ar 12 Awst.

Y broses apelio [ffeithlun]

Mae tri cham i'r broses apelio:

Cam 1 – Ym mis Mehefin, bydd eich ysgol neu goleg yn rhannu eich Gradd a Bennir gan y Ganolfan dros dro gyda chi. Gallwch ofyn iddynt ei hadolygu a/neu gywiro unrhyw wallau cyn iddi gael ei chyflwyno i CBAC. Gallai hyn arwain at eich gradd dros dro fod yn uwch neu'n is nag yr oedd cyn adolygiad y ganolfan.

Cam 2 – Ar ôl diwrnod canlyniadau, gallwch apelio i CBAC drwy eich ysgol neu goleg, os ydych yn teimlo bod y dyfarniad gradd a wnaed gan eich ysgol neu goleg yn afresymol a/neu os oes camgymeriad yn y broses wedi'i wneud. Os bydd CBAC yn penderfynu bod gwall wedi bod neu fod eich gradd yn afresymol, byddwch yn cael gradd newydd. Gallai'r radd hon fod yn uwch neu'n is na'r un y gwnaethoch apelio yn ei herbyn.

Cam 3 – Ar ôl cwblhau adolygiad Cam 2, gallwch ofyn am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) gan Cymwysterau Cymru i weld a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol. Dyma gam olaf y broses apelio.

Ymgeiswyr preifat

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod canolfannau a fydd yn cynnwys ymgeiswyr preifat ledled Cymru. Bydd y canolfannau hyn yn cynnal ymgeiswyr preifat a bydd CBAC yn trefnu asesiad addas. Bydd CBAC yn marcio'r gwaith i lunio barn a phennu gradd (gwneir hyn yn yr un modd ag ar gyfer dysgwyr sydd wedi cofrestru mewn ysgol neu goleg). Bydd CBAC hefyd yn sicrhau bod proses ar waith i ganiatáu i ymgeiswyr preifat ofyn am apêl.

Os oes gennych berthynas ag ysgol neu goleg eisoes, yna gall trefniadau barhau yn ôl y bwriad. Os nad oes gennych berthynas sefydledig ag ysgol neu goleg, yna byddwch yn gallu trefnu i gofrestru gyda chanolfan yn eich ardal.

Bydd rhagor o wybodaeth unwaith y bydd y trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat wedi'u cwblhau.

Tegwch a chydraddoldeb i ddysgwyr
Pan fydd eich ysgol neu goleg yn penderfynu ar eich graddau, rhaid iddynt gynnwys ystod o dystiolaeth a sicrhau bod dyfarniadau gradd mor deg â phosibl ac osgoi rhagfarn. Mae CBAC yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant i ysgolion a cholegau fel bod eu penderfyniadau graddio yn deg.

Rhaid i'ch ysgol neu goleg esbonio'n glir:

- sut a pham y dewiswyd tystiolaeth, a
- sut y gwnaed penderfyniad gradd.

Rhaid cofnodi'r wybodaeth hon mewn cofnod gwneud penderfyniadau.

Rhaid i'ch ysgol neu goleg gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'ch ysgol neu goleg gyfathrebu â chi a'ch rhieni neu ofalwyr mewn ffordd glir, dryloyw a hygyrch. Rhaid iddynt hefyd ystyried hawliau pob dysgwr i gael ei drin yn gyfartal a pheidio â wynebu gwahaniaethu.

Pan fydd eich ysgol neu goleg yn cyflwyno Graddau Dros Dro a Bennir gan y Ganolfan, bydd angen iddynt ddangos sut y maent wedi ystyried anghenion pob person ifanc, a sut mae hyn yn bodloni cyfraith cydraddoldeb (PSED).

Grŵp Cynghori i Ddysgwyr Cymwysterau Cymru – galwad olaf am geisiadau!

Rydym yn sefydlu Grŵp Cynghori i Ddysgwyr a fydd yn ein helpu i siarad â dysgwyr a deall yr hyn sydd ei angen arnynt gennym ni. Rydym yn croesawu ceisiadau gan amrywiaeth o ddysgwyr o wahanol gefndiroedd a'r rhai sy'n astudio ystod o gymwysterau, er mwyn sicrhau bod gennym gynrychiolaeth eang ar y grŵp hwn. Y dyddiad cau i wneud cais yw 7 Mawrth ac mae mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n ofynnol ar ein gwefan.

Rydym yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar ein gwefan, gan gynnwys cwestiynau a ofynnir yn aml.

Yn gywir,

Philip Blaker
Prif Weithredwr

Llinell amser

HAF 2021 - LLINELL AMSER DYDDIADAU ALLWEDDOL I DDYSGWYR

ERBYN Y PASG	Bydd eich ysgol neu goleg yn dweud wrthych sut y cewch eich asesu a'ch graddio ar gyfer eich cymhwyster
YM MIS MEHEFIN *(Bydd eich ysgol neu goleg yn cadarnhau'r dyddiadau i chi)*	Byddwch yn derbyn eich Graddau a Bennir gan y Ganolfan **dros dro** a byddwch yn cael cyfle i ofyn i'ch graddau gael eu hadolygu. Bydd eich ysgol neu goleg yn esbonio'r broses y byddant yn ei defnyddio ac yn dweud canlyniad unrhyw adolygiad wrthych
ERBYN 2 GORFFENNAF	Bydd eich ysgol neu goleg yn cyflwyno Graddau a Bennir gan y Ganolfan **dros dro** i CBAC
10 AWST	**Diwrnod Canlyniadau UG a Safon Uwch**
10 AWST – 7 MEDI	Cewch gyfle i apelio eich canlyniad gyda CBAC
12 AWST	**Diwrnod Canlyniadau TGAU**
24 AWST – 21 MEDI*	Cewch gyfle i apelio eich canlyniad gyda CBAC
AR ÔL DIWRNOD CANLYNIADAU	Cewch gyfle i apelio i Cymwysterau Cymru am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS)

** dyddiad dros dro*

Y broses Apelio

Y Broses Apelio ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021

Mae tri cham i'r broses apelio yn Haf 2021. Mae'r cam cyntaf wedi'i gwblhau cyn diwrnodau'r canlyniadau ac mae'n cael ei gynnal gan eich ysgol neu goleg. Mae'r ail gam ar ôl diwrnod y canlyniadau ac mae'n cael ei gynnal gan Fwrdd Arholi CBAC. Dim ond ar ôl cwblhau camau 1 a 2 y gellir gofyn am y cam olaf a bydd yn cael ei gynnal gan Cymwysterau Cymru.

Bydd eich ysgol neu goleg yn cynhyrchu Graddau a Bennir gan y Ganolfan ar gyfer pob TGAU, UG neu Safon Uwch yr ydych wedi cofrestru ar eu cyfer eleni. Mae'n bwysig nodi bod y Graddau hyn a Bennir gan y Ganolfan yn raddau dros dro hyd nes y cyhoeddir graddau cymwysterau gan CBAC ar ddiwrnodau canlyniadau.

CAM 1	**Ym mis Mehefin,** bydd eich ysgol neu goleg yn rhannu eich Gradd a Bennir gan y Ganolfan dros dro gyda chi. Gallwch ofyn iddynt ei hadolygu a/neu gywiro unrhyw wallau cyn iddi gael ei chyflwyno i CBAC. Gallai hyn arwain at eich gradd dros dro fod yn uwch neu'n is nag yr oedd cyn adolygiad y ganolfan.
CAM 2	**Ar ôl diwrnod canlyniadau,** gallwch apelio i CBAC drwy eich ysgol neu goleg, os ydych yn teimlo bod y dyfarniad gradd a wnaed gan eich ysgol neu goleg yn afresymol a/neu os oes camgymeriad yn y broses wedi'i wneud. Os bydd CBAC yn penderfynu bod gwall wedi bod neu fod eich gradd yn afresymol, byddwch yn cael gradd newydd. Gallai'r radd hon fod yn uwch neu'n is na'r un y gwnaethoch apelio yn ei herbyn.
CAM 3	**Ar ôl cwblhau adolygiad Cam 2,** gallwch ofyn am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) gan Cymwysterau Cymru i weld a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol. Dyma gam olaf y broses apelio.

Bydd gwybodaeth fanylach ar gael i helpu i'ch tywys drwy'r broses apelio ar ôl y Pasg.